

## **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd 4 ydd o Tachwedd 2015 am 7 - 0 o'r gloch.**

### **Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 4th November 2015 at 7pm.**

**1. Croeso / Welcome** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

*Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*

**Presennol / Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Alan Owen, Wyn Hughes, Ann Sutton, Delyth Jones, Dafydd Roberts, Alwyn Rowlands, Gareth Moore, a Geraint Parry (Clerc).

Scot Patterson yn bresennol fel aelod o'r cyhoedd / *Scot Patterson was present as a member of the public.*

Cadeirydd yn agor y cyfarfod drwy ofyn am bleidlais o hyder yn ei gadeiryddiaeth dilyn materion sydd ymwneud a chartref Haulfre a Tir Comin. Dilyn trafodaeth penderfynwyd codi'r mater yma yn y cyfarfod nesaf / *Chairperson opened the meeting by asking for a vote of confidence in his Chairmanship following issues surrounding Haulfre and Common Land. Following discussion it was decided to raise this issue at the next meeting.*

**2. Ymddiheuriadau / Apologies:-** Lewis Davies a Carwyn Jones.

Cyng. A Sutton wedi gadael y cyfarfod 9.25 / *Clr. A Sutton left the meeting at 9.25*

Cyng. A Rowlands wedi gadael yn cyfarfod 9.30 / *Clr. A Rowlands left the meeting at 9.30*

**3. Cofnodion / Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 fed o Hydref fel rhai cywir gan Cyng. R Roberts, eiliwyd gan Cyng. W Hughes wrth newid rhai pwyntiau. Penderfynwyd cofnodi'r amser mae'r Cynghorwyr yn gadael y cyfarfod.

*Minutes of the previous meeting held on 7th October were accepted as accurate by Clr. R Roberts, seconded by Clr. W Hughes by amending some points. If Councillors leave the meeting early, it was decided to record the time.*

**4. Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters arising from the minutes**

- Grant i Gwella Amgylchedd - Clerc ar ddeall fod yr arwydd fflachio cyflymder yn cael ei osod mis yma. Cyng. A Rowlands i ofyn i'r Cyngor Sir anfon Swyddog o Adran Priffyrdd i ein cyfarfod nesaf i gael trefnu arolwg traffig / *Clerk is of the understanding that the flashing sign will be fitted this month. Clr. A Rowlands to ask the County Council to send an Officer from the Highways department to our next meeting to arrange traffic survey.*
- Llwybr ger Eglwys Penmon - A Moore wedi clirio'r fynedfa i'r llwybr / *Footpath near Penmon Church - A Moore has cleared the entrance to the footpath.*
- Clawdd yn gordyfu yn y man-troi yn Tawelfan - Cyng. L Davies wedi trefnu i'r Cyngor Sir anfon swyddog i ymweld ar safle / *Hedge is overgrown by the turning area in Tawelfan - Clr. L Davies has arranged for the County Council to send an officer to inspect the area.*
- Mini Bus Canolfan Hamdden Biwmares - Cyng. A Rowlands wedi trafod y mater gyda swyddog o'r Cyngor Sir, disgwyl mwy o fanylion / *Leisure Centre Mini Bus - Clr. A Rowlands to discuss the matter with the officer from the County Council, awaiting further information.*
- Clerc wedi gofyn am ddyfynbris i adnewyddu'r maes chwarae / *Clerk has requested a quote to refurbish the play area.*
- Parcio o flaen y giât fach sy'n arwain o'r fynwent y plwyf yn Eglwys St Cawrdaf. Clerc wedi anfon llythyr i berchennog y car / *Parking in front of the small gate leading from the parish cemetery of St Cawrdaf Church. Clerk has sent a letter to the car owner.*
- Cyng. R Roberts yn esbonio manylion digwyddiad hyfforddi cynllunio a fynychwyd ar 27/10/15 / *Clr R Roberts explained the details of the Planning training event attended on 27/10/15.*
- Maes Parcio Bont y Rhyd - trelar nawr wedi ei symud / *Pont y Rhyd car park - trailer has now been removed.*
- Gosod llinellau ar ochr y ffordd ger mynedfa i faes chwarae plant a gwarchodfa bws a hefyd ger y tai wrth yr Ysgol. Cyng. A Rowlands i drafod y mater gydag adran Priffyrdd ar Heddlu / *Need to have roadside lines placed by the entrance to the playing field entrance and the bus stop and also next to the houses by the School. Clr A Rowlands to raise the matter with the Highways Department and the Police.*

- Canllaw ar lwybr Lan Môr Pic - Cyngor Sir yn adrodd y bydd gwirfoddolwyr yn mynd i dorri'r ardal hon / *Handrail on the footpath to White Beach - County Council reports that volunteers will cut this area.*
- Mabwysiadu llwybr troed yng nghefn Penmarian Mawr - Clerc wedi gofyn i'r ymgeisydd am fanylion eu cynllun. Clerc i anfon linc i wefan "friends of anglesey coastal path" i'r Cynghorywr / *Adopting the footpath at the rear of Penmarian Mawr - Clerk has asked the applicant to send details of their plan. Also Clerk to circulate the link to the "friend of anglesey coastal path" to the Councillors.*
- Codwyd pryder ynghylch y cymaint o glirio mae Scottish Power wedi gwneud wrth dorri canghennau o gwmpas gwifrau trydan yn y warchodfa natur. / *Concern was raised about the large amount of clearing Scottish Power has carried out in cutting branches around the power line in the nature reserve.*
- Morglawdd ger Tŷ Dewi wedi ei drwsio / *The sea wall at Tŷ Dewi has been repaired*

##### **5. Datgan Diddordeb / Declaration of interest**

- Cyng. M Ellis a Cyng. Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol. *Clr M Ellis and Cllr D Jones on the discussion about the Community Group.*
- Cyng. A Owen a Cyng. G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre' / *Clr. A Owen on the discussion about the Village Hall.*
- Cyng. A Sutton ar gais cynllunio 1 Pen y Berth / *Clr. A Sutton on 1 Pen y Berth application*
- Cyng. D Jones ar drafodaeth gosod llinellau ar y ffordd / *Clr. D Jones on the discussion of putting lines on the road.*
- Cyng. R Roberts ar drafodaeth rhodd i Eglwys St Seiriol / *Clr. R Roberts on the discussion*

##### **6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

- 35C20G/TPO – gwaith i goed sydd wedi eu diogelu dan orchymyn diogelu coed / *works to trees protected by tree preservation order at 1 Pen y Berth – dim gwrthwynebiad / no objection*  
**Er gwybodaeth / Information**
- 35C318 - cais i godi anedd fforddiadwy ar dir ger Coedfryn, apel cael ei wrthod / *application to build an affordable house on land by Coedfryn, appeal is dismissed.*
- 35C87G,H,J,K,M,N,P/LB - Cais am caniatad adeilad rhestredig ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd presennol ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth ar uned 1 – 7 yn Tros Marian, Llangoed – wedi ei caniatáu / *Application for listed building consent for the conversion of existing outbuilding into a dwelling with the installation of a package treatment plant in unit 1 – 7 at Tros Marian, Llangoed – has been granted.*
- 35C87Q/LB - Cais am caniatad adeilad rhestredig ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i faes parcio ac ardal storfa yn Tros Marian – wedi ei caniatáu / *Application for listed building consent for the conversion of outbuilding into a parking area and a bin store area at Tros y Marian, Llangoed – has been granted.*

##### **7. Adroddiad gan y Cynghorwr Lleol / Report by the County Councillor**

- 7.1 Cyngor Sir yn mynd i greu "ap" fel y bydd y cyhoedd yn gallu cysylltu yn uniongyrchol gyda'r adran briodol gyda'u pryder / *Anglesey County Council are creating an "app" so that members of the public can connect directly with the appropriate department with their concern.*
- 7.2 Cyngor Sir yn mynd trwy'r proses o werthuso swyddi / *County Council are going through the process of job evaluation.*
- 7.3 Cyngor Sir yn edrych i wneud arbedion o £5 miliwn yn ystod 2016 / *County Council are looking to make savings of £5 million during 2016.*
- 7.4 Morglawdd ym Miwmares wedi ei gwblhau / *Sea wall at Beaumaris is now complete*
- 7.5 Prosiect Hub Cymunedol Pobl Seiriol, mae'r Grŵp Cymunedol Llangoed wedi cael ei weld fel ffordd wych o weithio / *Seiriol Community Hub, the Llangoed Community Group has been seen as an excellent way to work.*
- 7.6 Mae yna brosiect yn edrych i mewn i dai fforddiadwy, unedau diwydiannol bach a thai cyffredinol ar y hen safle ffatri Lairds / *There is a project looking at affordable housing, small industrial units and general housing on the old Lairds factory site.*

##### **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

- Parti galan gaeaf wedi ei gynnal ar 30/10/15 / *Haloween Party has taken place on 30/10/15*
- Digwyddiad dartiau wedi digwydd ar 2/11/15 / *Darts event has taken place on the 2/11/15*

### **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Cyng. D Jones – Wythnos Hydref wedi bod yn brysur iawn / *October week has been very busy.*
- Trwy'r grant Ymwybyddiaeth Casineb cynhaliwyd sesiwn ar gyfer trigolion Haulfre yn y lolfaf ym Mhont y Brenin / *Via the Hate Awareness grant a session was held for the residents of Haulfre in the lounge at Pont y Brenin.*
- Plant wedi bod yn codi sbwriel yn y pentref, o Bont y Rhyd, Tawelfan a Bryn Paun. Wedi casglu 10 bag bin llawn / *Children have been litter picking in the village, from Bont y Rhyd, Tawelfan and Bryn Paun. They collected 10 bin bags full of rubbish.*
- Nifer wedi ymuno a pharti Calan Gaeaf. Gweithio ar y cyd gyda phwyllgor y Neuadd wedi gweithio'n dda / *Halloween party was well attended. Joint working with the Village Hall committee worked well.*
- Mae'r grŵp yn fuddiolwyr o rodd gan Pwyllgor Ras Rafftiaau Porthaethwy / *The group are beneficiaries of a donation from Menai Bridge raft race committee.*
- Cyng. A Rowlands i ofyn i Dwr Cymru am gyllid tuag at bris y nodau pêl-droed / *Cyng. A Rowlands to ask Welsh Water for a donation towards the football goals.*

### **10. Prosiect Afon Lleiniog / Lleiniog Project**

Cyfarfod 3/11 wedi ei gohirio / *Meeting 3/11 was cancelled.*

### **11. Cartref Preswyl Haulfre / Residential Home**

Cyng. R Roberts yn cynnig pleidlais o ddiolch i Cyng. L Davies a Cyng. C Jones am eu gwaith caled ynglŷn ag achos Cartref Preswyl Haulfre, gyda phawb yn gytûn.

Cyng. K Williams – esboniodd nid oedd cynnwys ei e-bost yn negyddol i'r gwaith caled mae'r ein Cynghorwyr wedi gwneud ond bod yna lawer mwy o waith i'w wneud a bod gofal ychwanegol yn ateb gwael pen mae prinder gwelyau preswyl yn yr ardal hon.

Cyng. A Rowlands - esboniodd adroddiad Iechyd a Diogelwch mewn perthynas i ddiogelwch tan ar benderfyniad cael opsiwn arall yn ward Seiriol. Ar hyn o bryd mae tri safle dan ystyriaeth i'r Cynllun Gofal ychwanegol.

*Clr. R Roberts offered a vote of thanks to Clr. L Davies and Clr. C Jones for their hard work with Haulfre Residential Home. All in agreement.*

*Clr. K Williams explained that the content of his e-mail was not negative of the hard work the Councillors have done but to state there is a lot more work to be done, and that Extra Care is a poor solution when there is a desperate shortage of residential beds in this area.*

*Clr. A Rowlands – explained the Health and Safety report in relation to fire safety and the decision to have an alternative option in the Seiriol ward. Currently three sites under consideration for the Extra Care Scheme.*

### **12. Tir Comin / Common Land**

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r gwaith a gynhaliwyd at dir comin yn ddiweddar ger Penmarian Mawr ar effaith am y negeseuon e- bost a dosbarthwyd yn ystod y gwaith. Cyng. G Moore yn pwysleisio bod unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol yn cael ei drafod yn y cyfarfod yn y lle cyntaf cyn cael ei gylchredeg ar Clerc i fod yn brif gyswllt er mwyn anfon negeseuon e-bost. Cyng. R Roberts nododd bod angen gwella ein dull o weithio ar faterion tir comin.

Cyng. M Ellis - mae llun llain o dir wedi cael ei osod yn y ciosg yng Nglanrafon.

Aelod o'r cyhoedd wedi adrodd fod nifer o dyllau wedi cael eu gwneud ar y tir comin ger Fferm Marian a bod yr Heddlu wedi ei hysbysu. Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan aelod o deulu'r troseddwr y bydd y difrod yn cael ei drwsio. Hefyd Clerc wedi derbyn cwyn bod peiriant wedi croesi'r llwybr troed i mewn i'r padog tŷ cefn i Penmarian Mawr. Penderfynwyd bod gan y tîrfeiddiannwr yr hawl i groesi'r llwybr troed er mwyn cael mynediad i'w dir.

*Discussion took place regarding the recent work that was carried out on the common land by Penmarian Mawr and the effect of the e-mails circulated during the work. Clr. G Moore stressed that any future communications to be discussed in the meeting in the first place before being circulated, and the Clerk to be the main contact point with sending e-mails. Clr. R Roberts – stated that we need to improve our approach to matters with common land.*

*Clr. M Elis - photo of a plot of land has been placed in the kiosk in Glanrafon.*

*Member of the public has reported that a number of holes have been made on the common land by Marian Farm and that the Police have been informed. Clerk has received information from a member of the family of the offender that the damage will be repaired. Also the Clerk has received a complaint that a machine has crossed the footpath into the paddock at the back of Penmarian Mawr. It was decided that the landowner has the right to cross the footpath in order to gain access to the land.*

**13. Cyfrifon / Account.****Taliadau / Payments:-**

- Hughes - cynnal a chadw cloddiau, cae pêl droed ayyb / *hedges, football field etc - £260.00*
- Capel Ty Rhys - rhodd cynnal a chadw'r fynwent / *donation maintenance of the cemetery - £350.00*
- Eglwys St Seiriol - rhodd cynnal a chadw mynwent / *donation maintenance of cemetery - £350.00*
- Eglwys St Cawrdaf - rhodd cynnal a chadw mynwent / *donation maintenance of cemetery - £350.00*
- G Parry - cynnal a chadw mynwent y plwyf / *maintenance of parish cemetery - £650.00*

**14. Gohebiaeth / Correspondence**

Llythyr - Eisteddfod Môn 4 - 12 Awst 2017 / *Anglesey National Eisteddfod 4 - 8 August 2017*

e-bost - Cyng. L Davies llwybr arfordirol / *coastal footpath*

e-bost - Cyng. L Davies - Cyngor Cymuned / *Community Council*

e-bost - Cyng. L Davies - Haulfre

e-bost - ymgynghori ar lyfrgelloedd / *Library consultation*

e-bost - Cyng. L Davies - tyllau lonydd / *holes in the roads*

**15. UFA/AOB:**

15.1 Mae'r môr wedi erydu rhan o'r maes parcio yn Lleiniog / *The sea has eroded parts of the car park at Lleiniog*

15.2 Mae'r Cyngor Sir yn cysidro lleihau faint o gasglu sbwriel i unwaith y mis a hefyd edrych ar ffyrdd i ail cychu plastig caled. Maent hefyd yn cysidro stopio casglu bin gwyrdd yn y gaeaf / *The County Council are considering reducing the amount of refuse collection to once a month and also looking at ways of recycling hard plastic. They are also considering stopping the collection of the green bin in winter.*

15.3 Cyng. G Moore- nid oedd ein biniau wedi gwagio yn ddiweddar oherwydd nid oedd y lori yn gallu dod lawr y ffordd gan fod ceir wedi parcio yn ei ffordd / *The bins were not emptied recently because the lorry could not manoeuvre down the lane because of parked cars in the way.*

15.4 Clerc i gael gwybodaeth gyfreithiol ynghlyn a wal Lleiniog / *Clerk to obtained legal advise regarding the wall at Lleiniog*

15.5 Clawdd Dalar Las wedi ei dorri ond wedi gadael y toriadau ar y ffordd sydd yn beryglus i ddefnyddwyr / *Dalar Las hedge has been cut but the cuttings have been left on the side of the road which is dangerous to users.*

15.6 Apêl Eisteddfod Môn 4-12 Awst 2017 - yn gofyn am gefnogaeth drwy gyfrannu at ei gyllid. Pwyllgor yr Eisteddfod wedi gosod targed o £7,500 oddiwrth ardal Llangoed a Llanddona. Clerc i drefnu cyfarfod ar y cyd gyda Llanddona. Penderfynwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod ar y cyd gyda Llanddona / *Eisteddfod Môn appeal 4 - 7 August 2017 - asking for support by contributing to its finances. The Eisteddfod has set a target of £7,500 from the areas of Llangoed and Llanddona. It was decided for the Clerk to arrange a joint meeting with Llanddona.*

15.7 Cyng. D Jones - oes angen cais cynllunio i osod hysbysfwrdd yn sgwâr Tawelfan? / *Clr. - do we need planning permission to erect a notice board in Tawelfan square?*

15.8 Cyng. W Hughes - mae Bwyllgor y Neuadd yn codi £100 am logi'r Neuadd ar gyfer cyngerdd Nadolig Ysgol Llangoed. A fuasai'r Cyngor Cymuned yn talu hyn? Penderfynwyd yn unfrydol i dalu'r gost. *Clr. W Hughes - the Village Hall committee are charging £100 for the hire of the hall for the Llangoed school concert. Will the Community Council pay this cost? It was decided unanimously to pay this cost.*

**16. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 10.00 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 2/12/15.

*There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution.*

*Meeting came to an end at 10.00pm. Next meeting 2/12/15.*

Llofnod y Cadeirydd/Signature

Dyddiad/Date